# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*ClerkandChief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Fawrth 16 Mai 2017**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Pearl Evans

**Cynghorwyr Sir:** Y Cyngr. Rheinallt Puw a Paul Rowlinson

**1. Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Linda Brown.
Ymddiheuriadau gan y Cyng. Susan Davies.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Llys Dafydd: Y Cyngr, Godfrey Northam, Linda Brown ac Ann Williams; Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Neville Hughes a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**3.1** Adroddwyd bod yna gwynion wedi eu derbyn am y dorchau ar y gofeb. Penderfynwyd trefnu gael gwared ohonynt.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Ebrill 2017, yn ddarostyngedig i ychwanegu at Eitem 10.8 – y Cyngor am ysgrifennu i gwyno am y diffyg nifer o gerbydau pan yn teithio o Fangor i gyfeiriad Gaer.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cysylltu a'r Chwarel -** Y Cyng. Neville Hughes wedi ymweld a'r weiren wib, neb ar gael i sgwrsio, ond wedi cael cyfeiriad e-bost er mwyn ysgrifennu i drefnu cyfarfod. Dim ymateb wedi dod hyd yn hyn. Hefyd penderfynwyd holi yn y cyfarfod nesaf pa gamau sydd wedi eu cymryd i ddistewi'r weiren wib.
**5.2 Gofod parcio dros nos ar gyfer cerbydau 'camper' –** cyfarfod wedi ei drefnu gyda gwasanaeth Hamdden Cyngor Gwynedd ar gyfer dydd Llun 22.05.17.
**5.3 Cynllun llwybr troed Lon Newydd Coetmor** – dim cynllun manwl ar gael ar hyn o bryd.
**5.4 Llwybrau**-awdurdodwyd y toriad cyntaf o'r llwybrau eleni

**5.5 Un Llais Cymru**- gwahoddiad i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddydd Sadwrn, 30 Medi 2017. Rhaid iddynt gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener, 30 Mehefin fan pellaf. Penderfynwyd bydd pawb yn ystyried y mater erbyn y cyfarfod nesaf.
**5.6 Un Llais Cymru -** rhestr o ddyddiadau hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr newydd. Y Clerc a'r Cyng. Einir Williams am fynychu.
**5.7 Un Llais Cymru** – templed o bolisi cyfryngau cymdeithasol. Penderfynwyd bod pawb i ddarllen y ddogfen, a trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**6. Adroddiad Llys Dafydd**
Adroddwyd bod 2 gais wedi eu derbyn ar gyfer defnyddio Llys Dafydd-un gan Cymdeithas yr Iaith ac un arall am 'ddiwrnod o hwyl'. Penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Adroddwyd bod Mari Gwyn wedi cael swydd llawn amser yng Nghaerdydd, felly roedd angen llenwi'r swyddi yn y Bartneriaeth ac yn y Siop.
Ynni Ogwen-adroddwyd bod y tyrbein wedi cynhyrchu 2273kw o drydan ers dydd Sul.
Eiddo- adroddwyd bod Cwrw Ogwen wedi cael diwrnod agored llwyddiannus iawn. Penderfynwyd anfon llythyr yn dymuno pob lwc iddynt gyda'r fenter newydd.
Gweithiwr cynnal- penderfynwyd ail-hysbysebu'r swydd, gan gynyddu'r oriau i 16 awr yr wythnos (oriau hyblyg) ar raddfa cyflog Un Llais Cymru.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Grŵp Gwasanaethau ac Asedau Dyffryn Ogwen-adroddwyd bod cwmni Burum wedi cael ei ddewis gan y grŵp i wneud yr ymarferiad sgopio, ac bod rhan fwyaf o'r teganau wedi cyrraedd.

Cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd a Cadw Cymru'n Daclus- adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal yng Nghaffi Coed y Brenin 15.05.17. Cyngor Gwynedd am lunio rhestr o finiau sbwriel a biniau baw ci yr ardal a'i anfon at y Clerc. Hefyd am rhoi gwybod am gylch torri gwair yr ardal. Adroddodd y Cyng. Ann Williams bod angen bin newydd ar Lôn Bach Odro, ger Ysgol Llanllechid, gan bod yr un oedd yno wedi diflannu.

**9. Ffurflen Ariannol Flynyddol**
Y ffurflen wedi ei ddychwelyd, gan bod rhai o'r ffigyrau angen eu newid. Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Clerc i ail-lenwi'r ffurflen ar ddiwedd y cyfarfod.

**10. Apwyntiad Archwilydd Mewnol**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r gwasanaeth archwilio gan Parry & Co, Rhosneigr.

**101 Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mai 2017'
**11.1**. E-bost gan Y Pwyllgor Safonau -cyfle i enwebu 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Nodwyd yr ohebiaeth.
**11.2** E-bost gan Gareth Llwyd - cwyn yn erbyn arwydd 'Tynal Tywyll' sy'n defnyddio'r enw llafar lleol yn hytrach na 'Twnnel Pendinas'. Y Cyngor yn hapus gyda'r enw, sy'n enwog drwy Gymru erbyn hyn.

**11.3** Llythyr gan Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru-cyfle i rannu sylwadau ar rai o faterion y Panel. Y Cynghorwyr i ymateb fel unigolion. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i fod ar y rhestr postio.
**11.4** E-bost gan Llywodraeth Cymru -Ffurflen Adroddiad Monitro Blynyddol-penderfynwyd bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn cwblhau'r ffurflen.
**11.5** E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – cyfle i gael 4 coeden afal am ddim. Penderfynwyd bydd Partneriaeth Ogwen neu Egin Ogwen yn gallu gwneud defnydd ohonynt.
**11.6** Llythyr gan Ysgol Pen y Bryn – cais am rodd ariannol tuag at costau teithio i Eisteddfod yr Urdd 2017 Pen y bont ar Ogwr. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i roi rhodd o £200.
**11.7** E-bost gan Gyngor Gwynedd – yn chwilio am fanylion cyfreithwyr y Cyngor ar gyfer trosglwyddiad maes parcio Canolfan Rachub. Y Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**Penderfyniadau**
**C17/0367/13/LL**

Capel Bethel, Henbarc, Rachub — Creu mynedfa gerbydol newydd a man troi, newid defnydd y Capel o addoldy i uned gwneud clogsiaua cadw defnydd Ty capel yn uned preswyl.
**Dim penderfyniad hyd yn hyn**

**C17/0379/13/LL**

27 Braichmelyn, Bethesda — Dymchwel estyniad unllawr cefn presennol a codi estyniad deulawr yn ei le
**Dim penderfyniad hyd yn hyn**

**Ceisiadau**
**C17/0386/13/LL**

Gorffwysfa, Bangor Road, Bethesda — Dymchwel lolfa wydr bresennol ar gefn yr eiddo a chodi estyniad deulawr newydd yn ei le
**Dim gwrthwynebiad**

**RMJ/AE0464**

Zipworld, Chwarel Penrhyn, Bethesda — Cais am drwydded eiddo
**Gwrthwynebu- yn datgan pryder i'r dyffryn ac i fusnesau Stryd Fawr Bethesda**

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mai) | £260.00 |
| CThEM (Mai) | £65.00 |
| Clwb Diogelu Gerlan (rhodd) | £1500.00 |
| Scottish Power | £50.68 |
| Scottish Power | £31.88 |
| Glanhau Ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |